New Art West Midlands

# Cyfarwyddwr

## Pecyn Recriwtio

# Croeso gan Brif Swyddog Gweithredol/ Cyfarwyddwr Artistig DASH

Helo,

Croeso cynnes i DASH a New Art West Midlands.

Diolch am fynegi diddordeb yn y swydd hon a gobeithiaf y bydd ein pecyn recriwtio yn eich ysbrydoli chi i gyflwyno cais.

Mae gan **DASH** dros 20 mlynedd o waith pwysig ac mae cynrychiolaeth a chydweithredu wrth ein calon. Rydym wedi adeiladu partneriaethau ysbrydoledig a hir oes gyda rhai o'r prif orielau ac amgueddfeydd yn y DU, ac artistiaid a chynulleidfaoedd y celfyddydau sy'n Anabl, B/byddar a Niwrowahanol. Rydym yn sefyll ar yr ysgwyddau hyn wrth i ni ddechrau ein pennod nesaf.

Mae New Art West Midlands (NAWM) yn rhan o **Contemporary Visual Arts Network England** ac mae wedi'i chynnal gan DASH. Mae NAWM yn gweithio ar draws Gorllewin Canolbarth Lloegr gan hyrwyddo a dathlu ymarfer y celfyddydau rhanbarthol a darparu cymorth i'r sector. Mae'n rhan o rwydwaith bywiog, cenedlaethol ac rydym yn chwilio am Gyfarwyddwr i arwain y ffordd yn ddiogel tua'r dyfodol, gan weithio ar draws DASH a NAWM.

Ces i fy mhenodi yn Brif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Artistig yn 2023 ac rwy'n un o'r ychydig o arweinwyr Awtistaidd/ ADHD yn y celfyddydau. Rwyf wrth fy modd fy mod yn arwain DASH yn ystod y cyfnod datblygu ac ehangu nesaf.

Mae ein hymagwedd wedi'i chynnal gan artistiaid ac ymchwil dan arweiniad gweithredu. Rydym yn gweithio ar sail amserlenni anabl, sy'n golygu bod ein cynhyrchiant a'n meddwl wedi'u cynnal dan awdurdodaeth hael o fewn systemau a chymdeithas ablaeth. Rydym hefyd yn gweithredu ymagwedd sy'n niwrogadarnhaol at ein holl waith, gan ganiatáu myfyrio parhaus a chynnal gofod seicolegol diogel ar gyfer pob un o'n pobl.

Mae gennym waith cyffrous a hynod feddylgar yn ystod y blynyddoedd nesaf trwy ein 'Rhaglen Curaduron y Dyfodol', ein rhaglen meddwl yn feirniadol drawstoriadol, comisiynau artistiaid a'n gwaith newid systemau. Rydym yn chwilio am bobl greadigol, chwilfrydig a rhagweithiol i gyflawni'r gwaith hwn gyda'n gilydd.

Darllenwch y pecyn recriwtio ac, os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost i **info@dasharts.org** neu anfonwch Neges Uniongyrchol ar ein tudalen Instagram **@dashdisabilityarts.** Ym mis Mawrth, rydyn ni'n cynnal sesiwn wybodaeth holi ac ateb er mwyn i bobl ofyn cwestiynau.

Mae gwaith NAWM a DASH yn gymhleth, yn llawn pwrpas, yn llawen ac yn greadigol. Gobeithiaf y byddwch chi'n ystyried ymuno â ni ar gyfer ein pennod nesaf.

Cofion cynnes,

**Heather Peak**
Artist/Prif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Artistig

Chwarae fideo Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

# Cyfarwyddwr

Mae New Art West Midlands yn chwilio am Gyfarwyddwr newydd i arwain y sefydliad yn ystod ei gyfnod cyffrous nesaf. Rydym yn chwilio am weithiwr proffesiynol yn y celfyddydau gweledol sy'n chwilfrydig, yn rhagweithiol, yn uchel eu cymhelliant ac yn greadigol.




Dylech chi fod yn ymroddedig a meddu ar wybodaeth gadarn am y celfyddydau a'r sector diwylliannol yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr.

Bydd deiliad y swydd yn adrodd i gyd-gadeiryddion NAWM (Heather Peak, Prif Swyddog Gweithredol/ Cyfarwyddwr Artistig DASH a chaiff yr ail gyd-gadeirydd ei benodi yn nes ymlaen eleni) ynghyd a grŵp llywio NAWM (i'w benodi pan fydd y Cyfarwyddwr newydd wedi dechrau).

Gan fod yn bartner i sefydliadau yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, bydd y Cyfarwyddwr yn creu ac yn cyflwyno gweithgarwch cynhwysol a fydd yn cefnogi twf sector y celfyddydau gweledol y rhanbarth. Mae NAWM yn rhan o **Contemporary Visual Arts Network England** (CVAN).

Mae NAWM wedi'i gynnal gan DASH sef elusen y celfyddydau gweledol a arweinir gan anabledd sy'n meddu ar weledigaeth ar gyfer byd lle y mae'r Celfyddydau Anabledd wedi'u gwerthfawrogi'n gydradd.

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, ei genhadaeth oedd effeithio ar newid yn y sector, chwalu rhwystrau rhag mynediad a sefydlu ymarfer y Celfyddydau Anabledd yn y brif ffrwd.

Erbyn hyn, mae DASH mewn cyfnod o dwf ac ehangu gan adeiladu ar ei enw da a'i ymddiriedaeth.

Bydd Cyfarwyddwr newydd NAWM yn ymuno â DASH ac aelodau tim newydd i adeiladu sefydliad cynhwysol a arweinir gan artistiaid gyda'i gilydd.

Chwarae fideo Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

# Y Rôl



**Teitl y Swydd: Cyfarwyddwr**

| | |
|---|---|
| Atebol i: | Cyd-gadeirydd NAWM: Prif Swyddog Gweithredol/ Cyfarwyddwr Artistig DASH<br>Cyd-gadeirydd NAWM: (A benodwyd yn y flwyddyn newydd)<br>Grŵp Llywio NAWM |
| Cyflog: | **£22,800** y flwyddyn (£38,000 CALl)<br>Cyfnod penodol tan fis Mawrth 2026 |
| Contract ac oriau: | Rhan-amser, 21 awr/3 diwrnod yr wythnos |
| Gwyliau: | 25 diwrnod, ynghyd â gwyliau cyhoeddus (pro-rata) |
| Dyddiad dechrau: | **Mai/Mehefin 2024** |

**Diben y Swydd**

Bydd y Cyfarwyddwr yn llysgennad ar gyfer sector y celfyddydau gweledol cyfoes yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr gan ddathlu ymarferion a gweithgarwch rhanbarthol. Bydd yn chwarae rhan hanfodol o ran cyflwyno cymorth cydweithredol i'r sector ar draws y rhanbarth gan fynd i'r afael a'r bylchau a'r rhwystrau rhag datblygu ac ymgysylltu.

Bydd yn hyrwyddo gweithgarwch sy'n hybu cynhwysiant, gwydnwch a lle ac arwain y gwaith o gyflwyno rhaglenni i gefnogi'r nodau hynny. Bydd yn cynnal gwerthoedd sefydliadol CVAN a DASH, yn cefnogi amgylchedd gwaith adeiladol a chynnal a chadw ei enw da cadarnhaol.

Mae'r swydd hon yn cynnwys gweithio o bell a chynhelir cyfarfodydd wyneb yn wyneb pob pythefnos gyda thîm DASH yn Oriel IKON, Birmingham.




Chwarae fideo Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

# Cyfrifoldebau

- Cyfrifol am gyflenwi strategol a gweithredol
- Cyfrifol am reolaeth ariannol effeithiol
- Cyfrifol am adnabod cyfleoedd datblygu a buddsoddi ar gyfer artistiaid o Orllewin Canolbarth Lloegr a NAWM
- Magu a chynnal perthnasoedd gyda rhanddeiliaid, partneriaid a chyllidwyr
- Rheoli staff llawrydd a chontractwyr
- Ffurfio a goruchwylio marchnata a chyfathrebu effeithiol
- Sefydlu a chynnal monitro ac adrodd effeithiol i randdeiliaid, partneriaid a chyllidwyr

Chwarae fideo Iaith Arwyddion Prydain (BSL)



# Tasgau

• Magu perthnasoedd cryf gydag artistiaid, ymarferwyr a sefydliadau yn y celfyddydau gweledol a sefydliadau ac unigolion perthnasol eraill - y rhai sy'n dylanwadu ar farn, llunwyr polisi, cyllidwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau

• Curadu a chreu rhaglenni ar gyfer artistiaid o Orllewin Canolbarth Lloegr

• Creu a chyflenwi gweithgarwch eiriolaeth a chymorth i'r sector o safon uchel mewn ymgynghoriad a'r Grŵp Llywio

• Cynorthwyo a recriwtio aelodau'r Grŵp Llywio

Hwyluso a dogfennu cyfarfodydd y Grŵp Llywio a sesiynau ymgynghori a chynllunio

• Adnabod cyfleoedd i hyrwyddo ymarfer y celfyddydau rhanbarthol a chodi ymwybyddiaeth yn rhanbarthol o werth cyhoeddus y celfyddydau gweledol

• Adnabod pynciau ar gyfer ymchwil a data ar gyfer casglu a rhannu tystiolaeth

• Cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth gyda DASH o ran ymchwil, rhaglennu a gwybodaeth am y sector

• Sicrhau bod gwaith NAWM yn gyfartal ac yn hygyrch

• Sefydlu a chynnal prosesau gweinyddol, monitro a gwerthuso effeithiol

• Paratoi adroddiadau, data monitro a gwerthuso i fodloni gofynion cyllidwyr

• Gosod cyllidebau a rheoli cyllid yn effeithiol, monitro incwm a gwariant, llunio rhagolygon llif arian a chyfrifon rheoli

• Arwain ar godi arian, adnabod cyfleoedd, creu cynigion, llunio ceisiadau ac adroddiadau

• Goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno gweithgarwch marchnata, ymgysylltu a chyfathrebu, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol a rheoli'r wefan, sy'n cynyddu gwelededd NAWM ac yn cyfleu gwerth y celfyddydau cyfoes

• Recriwtio a rheoli staff llawrydd gan sicrhau bod contractau perthnasol mewn lle ac yn cael eu monitro

• Cefnogi amgylchedd gwaith cadarnhaol a chefnogol

• Ymgymryd a dyletswyddau eraill yn unol ag ymgynghoriad a Grŵp Llywio NAWM

Chwarae fideo Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

# Manyleb y Person

**Rydym yn chwilio am rywun:**

- Sy’n meddu ar angerdd amlwg a chwilfrydedd am y celfyddydau gweledol cyfoes
- Sy’n rhwydweithio ac yn llunio’n rhagweithiol sy’n meddu ar sgiliau rhyngbersonol eithriadol
- Sy’n gallu dangos ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal
- Sy’n meddu ar rwydweithiau cryf ar draws y celfyddydau gweledol, y diwydiannau creadigol, Addysg Uwch, asiantaethau lleol a chenedlaethol
- Sy’n meddu ar brofiad mewn rôl ar lefel uwch mewn sefydliad bach neu o faint cyfatebol
- Sy’n gallu gweithio’n hyblyg, blaenoriaethu tasgau a bodloni dyddiadau cau
- Sy’n meddu ar wybodaeth ddwfn o’r heriau y mae sector y celfyddydau gweledol yn eu hwynebu

**Rydym yn chwilio am wybodaeth, sgiliau, profiad a/neu barodrwydd i ddysgu a hyfforddi yn y meysydd canlynol:**

- Hanes amlwg o godi arian a gwaith datblygu
- Gallu magu perthnasoedd a datblygu partneriaethau
- Sgiliau hwyluso, gweinyddol a threfnu cryf
- Gwaith tîm ardderchog, gallu gweithio’n annibynnol ac ar ei fenter ei hun
- Sgiliau ysgrifenedig a/neu rhyngbersonol a chyfathrebu ardderchog
- Profiad o reoli ac adrodd ariannol
- Gallu defnyddio TG, gan gynnwys rhaglenni Microsoft Office


Chwarae fideo Iaith Arwyddion Prydain (BSL)



# Y Broses Cyflwyno Cais

**Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau:**
**Dydd Gwener 15fed Mawrth**

I gyflwyno cais, anfonwch **CV** mewn unrhyw fformat (uchafswm o 3 tudalen) ac enwau **2 ganolwr** (byddwn yn cysylltu a nhw ar ôl i chi gael eich penodi)




Hefyd, a wnewch chi ymateb i'r cwestiynau canlynol:

**1. Sut ydych chi'n bodloni manyleb y person?**
**2. Pa artistiaid o Orllewin Canolbarth Lloegr sydd o ddiddordeb i chi a pham?**
**3. Ydych chi'n darllen, yn gwylio neu'n gwrando ar ddeunydd perthnasol ar hyn o bryd?**

Atebwch y cwestiynau mewn **un** o'r ffyrdd canlynol:

- **Cynnig ysgrifenedig (uchafswm o 1000 o eiriau)**
- **Ffilm (uchafswm o 7 munud)**
- **Recordiad sain (uchafswm o 7 munud)**
- **Gludwaith gweledol neu ddarluniad***

*Rhowch ffotograff digidol o'ch gludwaith/darluniad neu ddolen WeTransfer yn eich recordiad sain neu'ch ffilm oherwydd nad oes modd i ni dderbyn cyflwyniadau ffisegol trwy'r post.

Llenwch ein ffurflen **Monitro Cyfleoedd Cyfartal** a fyd dyn cael ei ddarllen ochr yn ochr a'ch cais a bydd ar gael i'r panel dethol a'r panel cyfweld.

E-bostiwch eich **CV, eich geirdaon a'ch ymatebion** i'r cwestiynau i **info@dasharts.org** gan ddefnyddio 'Cais Cyfarwyddwr NAWM / NAWM Director Application' fel y pwnc.

Chwarae fideo Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

# Sesiwn Holi ac Ateb

Bydd **sesiwn wybodaeth Holi ac Ateb** fyw oddi ar y camera gyda'r Prif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Artistig, Heather Peak, yn cael ei chynnal ar-lein (trwy Zoom) ym mis Mawrth 2024.

Bydd hwn yn gyfle ymlaciedig i ddysgu am raglen DASH, ei chynlluniau ar gyfer y dyfodol a gofyn mwy o gwestiynau am y rôl. Bydd y sesiwn yn cynnwys cyfieithydd ar y pryd BSL a bydd y dyddiad yn cael ei gyhoeddi cyn hir.

I archebu lle ar y sesiwn hon, anfonwch e-bost i **info@dasharts.org** neu i gofrestru i dderbyn ein **cylchlythyr** i dderbyn rhagor o wybodaeth.

Bydd adran **Holi ac Ateb** penodedig ar gael ar ein gwefan ar gyfer ymholiadau ynghylch rôl y Cyfarwyddwr. Byddwn ni'n diweddaru'r cynnwys mewn ymateb i'r cwestiynau sy'n cael eu derbyn.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynghylch y swydd hon, e-bostiwch ni yn: **info@dasharts.org** gan ddefnyddio 'Cwestiynau ynghylch rôl Cyfarwyddwr NAWM / Questions' fel y pwnc.

**Diolch a phob lwc!**

Chwarae fideo Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

# Y Broses Cyfweld

**Cyfweliadau Cyfnod 1:** **Dydd Mawrth 9fed Ebrill**, ar-lein (20 munud)

**Cyfweliadau Cyfnod 2:** **Dydd Mercher 17eg Ebrill**, wyneb yn wyneb (45 munud) yn Oriel Ikon, Birmingham

- Mae proses y cyfweliadau yn cynnwys dau gyfnod o drafodaethau panel
- Os byddwch chi'n cael eich dewis ar gyfer y cyfweliadau cyfnod cyntaf (trwy Zoom), cewch eich hysbysu ar ddydd Mercher 27ain Mawrth
- Bydd y panel yn cynnwys tri pherson o CVAN a DASH
- Darperir y cwestiynau 1 wythnos o flaen llaw ar gyfer pob cyfnod
- Ar gyfer cyfnod 2, gofynnir i chi roi cyflwyniad
- Caiff gwybodaeth ychwanegol ei hanfon at ymgeiswyr cyn cyfweliadau cyfnod 2 i sicrhau eu bod yn gyfforddus ac yn gyfarwydd a'r teithio a'r lleoliad
- Cysylltwch a ni os oes unrhyw broblemau o ran dyddiadau'r cyfweliadau
- Rhowch wybod i ni am unrhyw ofynion hygyrchedd ychwanegol
- Rhoddir adborth i bob ymgeisydd ar gais
- Gwneir y penderfyniadau ar ddydd Llun 22ain Ebrill
- Dyddiad dechrau ar gyfer yr ymgeisydd llwyddiannus: Mai/Mehefin

Chwarae fideo Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

# Manylion Pwysig

Mae DASH yn sefydliad y celfyddydau gweledol a arweinir gan bobl ag Anableddau ac mae ein gwerthoedd yn seiliedig ar gyfle cyfartal a’r Model Cymdeithasol o Anabledd.

Rydym yn cydnabod bod pobl o gefndiroedd nodweddion gwarchodedig, oherwydd rhwystrau a gwahaniaethu, yn aml yn methu a chael cyfle i ddatblygu eu potensial cyflogaeth yn llawn. Rydym yn annog ceisiadau gan bob sy’n adnabod fel Anabl, B/byddar a Niwrowahanol a’r rhai o gefndiroedd nodweddion gwarchodedig eraill.

Mae DASH yn gyflogwr cyfleoedd cyfartal. Rydym yn croesawu ceisiadau gan pob unigolyn cymwys perthnasol beth bynnag ei oedran, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, cenedligrwydd neu darddiad ethnig, anabledd, statws priodasol neu feichiogrwydd.

Mae DASH wedi ymrwymo i ddiogelu a lles oedolion, plant a phobl ifanc ag anghenion gofal ac mae’n disgwyl i’w aelodau staff a’i wirfoddolwyr rannu’r ymrwymiad hwn.

Mae gwiriad DBS, naill ai manwl neu sylfaenol, yn amodol ar eich rôl benodol, yn ofynnol ar gyfer pob swydd yn DASH. Os oes gennych chi ymholiadau ynghylch y broses DBS, mae pob croeso i chi holi.

Fel **Cyflogwr sy’n Hyderus o ran Anabledd** rydym wedi ymrwymo i:

- sicrhau bod ein proses recriwtio yn gynhwysol ac yn hygyrch
- gyfathrebu a hyrwyddo ein swyddi gwag
- cynnig cyfweliad i bobl anabl sy’n bodloni isafswm y meini prawf ar gyfer y swydd
- disgwyl a darparu addasiadau rhesymegol yn ôl yr angen
- cynorthwyo unrhyw gyflogai presennol sy’n datblygu anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor, gan ei alluogi i barhau i weithio
- o leiaf un gweithgaredd a fydd yn gwneud gwahaniaeth i bobl anabl

**Hysbysiad data personol y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR):**

Yn ystod ein proses recriwtio, mae DASH yn casglu ac yn prosesu data personol sy’n ymwneud ag ymgeiswyr swyddi. Rydym wedi ymrwymo i fod yn dryloyw ynghylch sut rydym yn defnyddio data i fodloni ein rhwymedigaethau diogelu data. Byddwch hysbys y byddwn ni’n rhannu’r data personol rydym yn ei dderbyn gennych chi yn eich cais gyda’r panel sy’n tynnu’r rhestr fer a’r panel cyfweld. Bydd mynediad yn cael ei gyfyngu i’r rhai sy’n rhan o’r broses recriwtio.

Chwarae fideo Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

# Credydau Delwedd



Tudalen 3: Di-deitl

Credyd Delwedd Linzi Stauvers



Tudalen 4: 'Fishwives Revenge' gan Alex Billingham

WAIWAV 2022 yn Oriel Tate St Ives



Tudalen 5: 'Detail from Chlorinated Ocean' gan Ludovic Foster



Tudalen 6: 'Trust Exercise'

Credyd Delwedd Thomas Oscar Miles Photography




Tudalen 8: 'Semantically Satiationing Dada' gan Luke 'Luca' Cockayne



Tudalen 12: 'Let them eat cake' gan Caroline Cardus

DASH

NEW New Art West Midlands



Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

Funded by UK Government

Garfield Weston Foundation

Esmée Fairbairn Foundation

Art Fund_

PLUS TATE NETWORK

TATE

We are a Living Wage Employer

disability confident COMMITTED